OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 686 (Cy.94)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn newid blynyddoedd etholiadau cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn a chynghorwyr i'r cynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal yn 2013 yn lle 2012. Mae hefyd yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr i'r cynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal yn 2013 yn lle 2012.

Yn unol â hynny, mae cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr presennol a etholwyd i Gyngor Sir Ynys Môn wedi ei estyn gan un flwyddyn. Mae cyfnod swydd cyfredol cynghorwyr cymuned presennol a etholwyd i gynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn hefyd wedi ei estyn felly gan un flwyddyn.

Mae'r cynllun ar gyfer ethol cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn aros yn ddigyfnewid, gan olygu y bydd etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd wedi 2013. Mae'r cynllun ar gyfer ethol cynghorwyr cymuned i'r cynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn hefyd yn aros yn ddigyfnewid, gan olygu y bydd etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd wedi 2013.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwrth-wneud y darpariaethau cyffredinol o ran amseriad etholiadau cyffredin a chyfnod swydd cynghorwyr yng Nghymru sydd wedi eu nodi yn adran 26 (prif gynghorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwrth-wneud y darpariaethau

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 686 (W.94)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order changes the years of ordinary elections of councillors to the Isle of Anglesey County Council and councillors to the community councils in the Isle of Anglesey county.

This Order provides that the ordinary elections of councillors to the Isle of Anglesey County Council will take place in 2013 instead of 2012. It also provides that the ordinary elections of councillors to the community councils in the Isle of Anglesey county will take place in 2013 instead of 2012.

The current term of office of existing councillors elected to the Isle of Anglesey County Council is accordingly extended by one year. The current term of office of existing community councillors elected to community councils in the Isle of Anglesey county is also accordingly extended by one year.

The scheme for elections of councillors to the Isle of Anglesey County Council is unchanged, in that subsequent ordinary elections will take place every four years after 2013. The scheme for elections of community councillors to the community councils in the Isle of Anglesey county is also unchanged, in that subsequent ordinary elections will take place every four years after 2013.

This Order overrides the general provisions in relation to the timing of ordinary elections and the term of office of councillors in Wales set out in section 26 (principal councils) of the Local Government Act 1972. This Order also overrides the general provisions in relation to the timing of ordinary elections and the

cyffredinol o ran amseriad etholiadau cyffredin a chyfnod swydd cynghorwyr cymuned yng Nghymru sydd wedi eu nodi yn adran 35 (cynghorau cymuned) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi o ran costau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth, Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

term of office of community councillors in Wales set out in section 35 (community councils) of the Local Government Act 1972.

A regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Democracy, Ethics and Partnership Division, Department for Local Government and Public Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 686 (Cy.94)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *27 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 87, 105(2) a 106(1)(b) a (c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt(**2**):

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012, a daw i rym ar 27 Mawrth 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2000 p.22.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 686 (W.94)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 March 2012* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *8 March 2012* |
| *Coming into force* | *27 March 2012* |

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by sections 87, 105(2) and 106(1)(b) and (c) of the Local Government Act 2000(**1**), and now exercisable by them(**2**):

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of this Order is the Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012 and it comes into force on 27 March 2012.

(2) This Order applies to Wales.

(**1**) 2000 c.22.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**Newid blwyddyn etholiadau cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn**

**2**.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i etholiad cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn.

(2) Bydd etholiadau a fuasai, oni bai am y Gorchymyn hwn, wedi eu cynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr(**1**) yn 2012 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2012(**2**) yn cael eu cynnal yn lle hynny ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2013 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2013.

**Cyfnod swydd cynghorwyr presennol**

**3**. Yn unol â hynny, mae cyfnod swydd cynghorwyr presennol a etholwyd i Gyngor Sir Ynys Môn wedi ei estyn gan un flwyddyn.

**Newid blwyddyn etholiadau cyffredin cynghorwyr cymuned i gynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn**

**4**.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i etholiad cyffredin cynghorwyr cymuned i gynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn.

(2) Bydd etholiadau a fuasai, oni bai am y Gorchymyn hwn, wedi eu cynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr cymuned(**3**) yn 2012 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2012(**4**) yn cael eu cynnal yn lle hynny ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr cymuned yn 2013 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2013.

**Cyfnod swydd cynghorwyr presennol**

**5**. Yn unol â hynny, mae cyfnod swydd cynghorwyr cymuned presennol a etholwyd i gynghorau cymuned yn Sir Ynys Môn wedi ei estyn gan un flwyddyn.

(**1**) Am ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ardaloedd llywodraeth leol, gweler adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2), fel y'i diwygiwyd gan adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), paragraffau 1 a 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29), ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**2**) Am y flwyddyn y buasai etholiadau cyffredin wedi eu cynnal fel arall, gweler adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) mewn perthynas â chynghorwyr prif gynghorau.

(**3**) Am ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr cymuned ardaloedd llywodraeth leol, gweler adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2), fel y'i diwygiwyd gan adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), paragraffau 1 a 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29), ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**4**) Am y flwyddyn y buasai etholiadau cyffredin wedi eu cynnal fel arall, gweler adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) mewn perthynas â chynghorwyr cymuned.

**Change of year of ordinary elections of councillors to the Isle of Anglesey County Council**

**2**.—(1) This article applies to the ordinary election of councillors to the Isle of Anglesey County Council .

(2) Elections which, but for this Order, would have taken place on the ordinary day of election of councillors(**1**) in 2012 and every fourth year after 2012(**2**) will instead take place on the ordinary day of election of councillors in 2013 and every fourth year after 2013.

**Term of office of existing councillors**

**3**. The term of office of existing councillors elected to the Isle of Anglesey County Council is accordingly extended by one year .

**Change of year of ordinary elections of community councillors to community councils in the Isle of Anglesey county**

**4**.—(1) This article applies to the ordinary election of community councillors to community councils in the Isle of Anglesey county.

(2) Elections which, but for this Order, would have taken place on the ordinary day of election of community councillors(**3**)in 2012 and every fourth year after 2012(**4**) will instead take place on the ordinary day of election of community councillors in 2013 and every fourth year after 2013.

**Term of office of existing community councillors**

**5**. The term of office of existing community councillors elected to community councils in the Isle of Anglesey county is accordingly extended by one year.

(**1**) For the ordinary day of election of councillors of local government areas, see section 37 of the Representation of the People Act 1983 (c.2), as amended by section 18 of the Representation of the People Act 1985 (c.50), paragraphs 1 and 5 of Schedule 3 to the Greater London Authority Act 1999 (c.29) and section 60 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c.28).

(**2**) For the year in which ordinary elections would otherwise have taken place see section 26 of the Local Government Act 1972 (c.70) in respect of councillors of principal councils.

(**3**) For the ordinary day of election of community councillors of local government areas, see section 37 of the Representation of the People Act 1983 (c.2), as amended by section 18 of the Representation of the People Act 1985 (c.50), paragraphs 1 and 5 of Schedule 3 to the Greater London Authority Act 1999 (c.29) and section 60 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c.28).

(**4**) For the year in which ordinary elections would otherwise have taken place see section 35 of the Local Government Act 1972 (c.70) in respect of community councillors.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2012

Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

6 March 2012

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2012 Rhif 686 (Cy.94)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2012 No. 686 (W.94)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012

£4.00

W1230/03/12 ON